

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
Cynllun Iaith Gymraeg
Paratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Y CYNGOR MEDDYGOL CYFFREDINOL

Cynllun Iaith Gymraeg

Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig y Cyngor Meddygol Cyffredinol gan Gomisiynydd y Gymraeg dan Adran 14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn Ebrill 2016. Cymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg cyntaf y Cyngor Meddygol Cyffredinol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 29 Mehefin 2006.

Egwyddor cydraddoldeb

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi ymrwymo i gyflawni ei ymrwymadau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, wrth baratoi ar gyfer cyflwyniad y Safonau Iaith Gymraeg newydd.

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni unrhyw waith cyhoeddus.

Mae'r cynllun hwn yn nodi sut fydd y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn gweithredu'r egwyddor hon wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Gellir cael gwybodaeth bellach am y Cynllun Iaith Gymraeg hwn gan aelod o Dîm Polisi a Materion Cyhoeddus Cymru: Cyngor Meddygol Cyffredinol, 4ydd Llawr, 2 Pwynt Caspian, Ffordd Caspian, Bae Caerdydd CF10 4DG.

1. CYFLWYNIAD

Mae'r CMC yn mabwysiadu'r egwyddor y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni gwaith cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut rydym yn bwriadu gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae cyhoeddi ein Cynllun Iaith Gymraeg (y cynllun) yn cynnwys rhai arferion gwaith newydd wrth wasanaethu'r cyhoedd yng Nghymru ac mae'n ffurfioli ein polisiau iaith yn unol â gofynion Comisiynydd y Gymraeg.

Mae'r CMC yn Elusen Gofrestredig (Rhif 1089278). Sefydlwyd CMC dan y Ddeddf Feddygol (1858). Fel rheolydd y proffesiwn meddygol, ein rôl yw diogelu cleifion a gwella addysg feddygol ac ymarfer ar draws y DU. Fel rhan o hyn rydym:

- yn penderfynu pa ddoctoriaid sy'n gymwys i weithio yn y DU
- yn goruchwyllo addysg a hyfforddiant meddygol y DU
- yn gosod y safonau mae rhaid i ddoctoriaid eu dilyn trwy gydol eu gyrfaedd
- lle bo angen, yn gweithredu i atal doctor rhag rhoi diogelwch cleifion neu hyder y cyhoedd mewn doctoriaid, mewn perygl.

Cadeirydd presennol CMC yw'r Fonesig Clare Marx. Mae corff llywodraethol y CMC, y Cyngor, yn cynnwys aelodau lleyg a meddygol, gyda phob penodiad yn dilyn proses penodiadau annibynnol.

Mae gennym swyddfeydd yn Llundain, Manceinion, Caeredin, Caerdydd a Belfast. Mae ein swyddfa ym Mae Caerdydd yn datblygu ac yn rheoli ein perthynas gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru, y cyfryngau a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru.

Rydym wedi ymrwymo i fonitro effeithiolrwydd gweithredu'r mesurau a nodir yn y cynllun hwn ac ni fyddwn yn addasu'r cynllun heb sicrhau cymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

2. EGWYDDORION CYFFREDINOL

2.1 Bydd CMC yn sicrhau y bydd egwyddorion cydraddoldeb yn cael eu gweithredu yng Nghymru ar gyfer pobl sy'n siarad Cymraeg a phobl sy'n siarad Saesneg yn y meysydd canlynol:

- cynllunio a darparu gwasanaeth;
- delio â'r cyhoedd;
- proffil cyhoeddus CMC.

3. CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETH

Polisiau a mentrau newydd

3.1 Wrth ffurfio polisiau a mentrau newydd, bydd CMC yn:

- asesu effaith ieithyddol unrhyw bolisiau, mentrau a chyngor newydd gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn;
- sicrhau na fydd unrhyw bolisi neu fenter newydd yn tanseilio'r Cynllun Iaith Gymraeg;
- manteisio ar bob cyfle i weithredu egwyddorion cydraddoldeb llawn pan fo'r rhain yn codi;
- ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynghylch cynigion sy'n effeithio ar y cynllun;
- ni fydd yn addasu'r cynllun heb sicrhau cytundeb Comisiynydd y Gymraeg yn gyntaf;
- sicrhau bod yr holl fesurau yn y cynllun yn cael eu gweithredu mewn polisiau a mentrau newydd pan fyddant yn cael eu gweithredu.

4. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH GYDA BUDD-DDEILIAID

4.1 O fewn ei gylch gwaith i ddiogelu cleifion a rhoi arweiniad i feddygon, mae CMC yn gweithio mewn partneriaeth gyda nifer o fudd-ddeiliaid er mwyn:

- hyrwyddo safonau uchel mewn addysg feddygol;

- meithrin arfer meddygol da;
- delio â meddygon lle y ceir amheuaeth ynghylch eu cymhwyster i wneud gwaith meddyg, mewn ffordd gadarn a theg;
- cadw cofrestr meddygon cymwys sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

4.2 Mae CMC yn gweithio mewn partneriaethau gyda cholegau meddygol, GIG Cymru a sefydliadau ac asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae CMC yn gweithio ar nifer o lefelau wrth weithio gyda sefydliadau allanol.

4.2.1 Pan fydd CMC yn ymuno â phartneriaeth neu'n ffurfio partneriaeth, bydd yn holi darpar bartneriaid am eu Cynllun Iaith Gymraeg, eu polisiau ar gyfer yr iaith Gymraeg neu'r ffyrdd y maent yn gweithredu'n ddwyieithog, pan fo hynny'n briodol.

4.2.2 O fewn unrhyw bartneriaeth, bydd CMC yn cynnig cyngor a chymorth i'r sefydliad partner arall ynghylch ei ddefnydd o'r iaith Gymraeg.

4.2.3 Pan fydd CMC yn ymuno â phartneriaeth a arweinir gan gorff arall, bydd mewnbwn CMC i'r bartneriaeth yn adlewyrchu Cynllun Iaith Gymraeg CMC a bydd CMC yn annog yr aelodau i gydymffurfio ag ysbryd y cynllun.

4.2.4 Pan fo CMC yn arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, bydd yn sicrhau bod gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

4.3 Mesurau ategol

Bydd CMC yn sicrhau bod pob aelod o staff sy'n llunio polisiau, nodiadau arweiniad a nodiadau cyngor yn ymwybodol o ofynion Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a chynllun CMC.

Mae rheolwyr uwch yn CMC yn gyfrifol am weithredu agweddau ar y cynllun sy'n berthnasol i'w cyfrifoldebau ac am sicrhau bod eu staff yn darparu gwasanaethau yn unol â'r cynllun hwn.

Bydd papurau sy'n berthnasol i Gymru, a gyflwynir i'w cymeradwyo gan gorff llywodraethol a chyngor CMC, yn gofyn am ystyriaeth o gyfrifoldebau'r GMC o dan y Cynllun Iaith Gymraeg.

5. SAFON Y GWASANAETH YN GYMRAEG

5.1 Caiff cyfarwyddiaethau eu trefnu a'u lleoli mewn ffordd sy'n sicrhau y gweithredir holl swyddogaethau CMC mewn ffordd effeithiol ar draws y DU. Felly, mae cyfran fawr o'r gwaith yn cael ei wneud gan staff nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru. Bydd ein gallu i fanteisio ar staff sy'n meddu ar sgiliau Gymraeg yn amrywio gydag amser, ac mae'n gallu i

ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn rhannol ddibynnol ar wasanaethau cyfieithu. Rydym yn cydnabod y bydd angen cynnal trefniadau ar gyfer comisiynu gwasanaethau allanol er mwyn cynorthwyo unrhyw ddiffyg gallu mewnol o ran sgiliau Cymraeg. Byddwn yn cyfeirio cymaint o'n cyswllt gyda'r cyhoedd yng Nghymru ag y gallwn trwy ein swyddfa yng Nghaerdydd, gan hyrwyddo'i phresenoldeb yn ein llenyddiaeth ac ar ein gwefan.

Bydd CMC yn:

- sicrhau safon cyfartal o ran y gwasanaeth a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- gosod safonau ar gyfer darparu gwasanaeth a delio â'r cyhoedd yn Gymraeg;
- sicrhau cysondeb yn safon y gwasanaeth a ddarperir gan CMC yn Gymraeg;
- monitro safon y gwasanaeth a'i weithrediad.

5.2 Mesur ategol

Bydd CMC yn cynnwys manylion ynghylch safonau'r gwasanaeth Cymraeg yn yr adroddiad blynyddol.

6. DARPARU GWASANAETH

6.1 Mae diogelu cleifion a rhoi arweiniad i feddygon wrth wraidd gwaith CMC. Wrth gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau hyn yng Nghymru, bydd defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg mewn ffordd briodol yn ystyriaeth hollbwysig.

6.2 Cwynion yn erbyn meddygon

Mae CMC yn delio â'r cyhoedd yn uniongyrchol trwy gyfrwng y pwerau cyfreithiol a ddyfarnwyd iddo gan y Senedd i ymchwilio i unrhyw gwynion a wneir, os ydynt gan aelod o'r cyhoedd neu gan feddyg arall, neu gan awdurdod cyhoeddus megis bwrdd iechyd lleol, ymddiriedolaeth GIG neu'r heddlu. Gellir cyflwyno cwynion o'r fath yn Gymraeg neu yn Saesneg.

6.3 Arweiniad

Bydd CMC yn sicrhau bod yr holl gyhoeddiadau ar gyfer y cyhoedd ar gael yn ddwyieithog yng Nghymru. Mae CMC o'r farn bod yr iaith Gymraeg yn rhan annatod o'i agenda cyfle cyfartal a'r holl arweiniad sy'n cael ei baratoi ganddo ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru.

7. CYSWLLT CMC GYDA'R CYHOEDD YNG NGHYMRU

7.1 Bydd CMC yn lledaenu arfer da o ran sensitifrwydd ieithyddol wrth gyfathrebu gydag ystod eang o gynulleidfaedd yng Nghymru.

7.2 Wrth ddarparu ei wasanaeth yn unol â chynnwys y cynllun hwn, mae CMC wedi ymrwymo i gynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yn yr iaith a ddewisant, boed hynny yn Gymraeg neu yn Saesneg.

7.3 Er mwyn sicrhau hyn, bydd CMC yn:

- darganfod yr iaith a ddewisant yn gynnar;
- trefnu bod y gwasanaeth yn cael eu darparu'n uniongyrchol neu trwy gyfrwng cyfieithiad yn yr iaith a ddewisant;
- darparu gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn i gleifion a'r cyhoedd drwy ei ganolfan gyswllt a Swyddfa Cymru;
- sicrhau ei bod yn cael ei wneud yn glir ar lenyddiaeth ddwyieithog y dylai ymholiadau yn Gymraeg eu cyfeirio at y Swyddfa CMC Cymru neu'r ganolfan gyswllt GMC, gan gynnwys ar wefan CMC; sicrhau bod holl staff CMC yn ymwybodol o Gynllun Iaith Gymraeg CMC a sut y dylid cyfathrebu â siaradwyr Gymraeg a phwy fydd yn cyfathrebu â nhw.

7.3.1 Bydd CMC yn ceisio bodloni gofynion aelodau'r cyhoedd o ran yr iaith a ddewisant ar ôl darganfod beth yw'r iaith honno.

7.3.2 Pan geir cwynion brys a chymhleth, mae CMC yn cadw'r hawl i benderfynu ar y ffordd fwyaf hwylus o ddelio â chwynion o'r fath, yn Gymraeg neu yn Saesneg, er mwyn peidio ymestyn proses deg yn ddiangen i'r cwynwr na'r meddyg.

Mae'r adrannau canlynol yn delio â'r mathau amrywiol o gyswllt gyda'r cyhoedd.

7.4 Cyfathrebu ysgrifenedig ac electronig

7.4.1 Mae CMC yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Nodir hyn ar unrhyw ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a fydd yn cael eu dosbarthu yng Nghymru ac ar wefan CMC.

7.4.2 Bydd llythyrau Cymraeg yn cael eu hateb o fewn yr un cyfnod ag unrhyw ohebiaeth Saesneg.

7.4.3 Ar gyfer gohebiaeth Saesneg a geir, bydd CMC yn ateb yn Saesneg yn awtomatig oni bai y gwneir cais iddo wneud fel arall.

7.4.4 Bydd yr un egwyddorion yn berthnasol i ohebiaeth a geir trwy gyfrwng e-bost.

7.4.5 Mewn achosion pan fo CMC yn dosbarthu cylchlythyrau neu ohebiaeth safonol i'r cyhoedd yng Nghymru, bydd yn sicrhau ei fod yn ddwyieithog.

7.5 Cyfathrebu dros y ffôn

7.5.1 Bydd aelodau'r cyhoedd sy'n ffonio unrhyw un o swyddfeydd CMC yn y DU ac yn nodi eu bod yn dymuno siarad yn Gymraeg, yn cael eu cyfeirio at canolfan gyswllt y GMC lle byddant yn cael y dewis i gael mynediad i cyfieithiad dros y ffôn.

7.5.3 Atebir prif rif cyswllt swyddfa CMC yng Nghymru yn ddwyieithog.

7.6 Cyfarfodydd cyhoeddus

7.6.1 Os bydd CMC yn cynnal cyfarfod i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod y cyfarfodydd hyn yn cynnig gwasanaeth i unigolion y mae'n well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg.

7.6.2 Bydd hysbysiadau pob cyfarfod cyhoeddus yn ddwyieithog. Bydd CMC yn ceisio annog aelodau'r cyhoedd i fanteisio ar eu hawl i ddewis ieithyddol mewn cyfarfodydd o'r fath. I hwyluso hyn ac am resymau gweithrediadol, bydd yr hysbysiad yn estyn gwahoddiad i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno mynychu, i hysbysu CMC o'r iaith a ddewisant.

7.7 Cyfarfodydd nad ydynt yn gyfarfodydd cyhoeddus

7.7.1 Bydd cyfarfodydd preifat gyda staff, budd-ddeiliaid ac aelodau'r cyhoedd yng Nghymru ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd CMC yn sicrhau bod staff sy'n meddu ar gymwysterau addas/cyfieithwyr ar gael er mwyn sicrhau y gellir cynnal cyfarfodydd/cyfweliadau Cymraeg. Bydd yr holl ddeunydd ysgrifenedig sy'n ymwneud ag unigolion sy'n cael eu cyfweld, ar gael yn ddwyieithog.

7.8 Y wefan

7.8.1 Bydd CMC yn creu porth Cymraeg i'w holl ddeunydd a gyfieithwyd ar y wefan, yn unol ag arweiniad Comisiynydd y Gymraeg. Bydd y deunydd a gyfieithwyd yn cynnwys :

- Gwybodaeth am CMC yng Nghymru – gan gynnwys manylion cyswllt;
- Bydd arweiniad i aelodau'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a bydd yn darparu gwybodaeth ynghylch, er enghraifft, sut i gwyno neu fynegi pryder ynghylch meddyg, sut i chwilio'r gofrestr feddygon a sut i wneud ymholiad 'Rhyddid Gwybodaeth';

- Bydd y cyfleusterau chwilio ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- Rhestr o'r holl gyhoeddiadau sydd ar gael yn Gymraeg yn yr adran Rhyddid Gwybodaeth;
- Mynediad uniongyrchol at ffurflen gwynion Iaith Cymraeg ar-lein;
- Cysylltiadau â fersiynau Cymraeg o ddogfennau ymgynghori;
- Bydd safle CMC Cymru ar wefan CMC yn cynnwys tudalen gartref Gymraeg: <http://www.cmc-cym.org/> a thudalen gartref Saesneg: <http://www.gmc-uk.org/wales/>.

8. WYNEB CYHOEDDUS CMC

8.1 Hunaniaeth gorfforaethol

8.1.1 Yng Nghymru, bydd delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol CMC yn cynnwys y Gymraeg a'r Saesneg.

8.1.2 Adlewyrchir hyn yn yr enw corfforaethol, y cyfeiriad, y papur ysgrifennu, y penawdau llythyrau, y penawdau negeseuon ffacs, y cardiau busnes, y slipiau cyfarch, yr arwyddion, y bathodynau adnabod a'r cyhoeddiadau ar gyfer cynulleidfa Gymreig.

8.1.3 Bydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y ddwy iaith yng Nghymru yn gyfartal. Bydd yr holl staff yn ymwybodol o ddeunyddiau corfforaethol dwyieithog CMC a chyflwynir gwybodaeth yn ymwneud â hyn yn y llawlyfr i staff.

8.1.4 Enw CMC yng Nghymru yw 'Y Cyngor Meddygol Cyffredinol' (CMC).

8.1.5 Defnyddir logo Cymraeg ar gyfer CMC ar y cyd â'r logo Saesneg ar gyfer CMC.

8.1.6 Bydd unrhyw un o swyddfeydd CMC yng Nghymru, sy'n cynnwys arwyddion gwybodaeth mewn manau lle y gall y cyhoedd eu defnyddio, yn sicrhau bod yr arwyddion yn hollol ddwyieithog a bod y ddwy iaith yr un mor amlwg ac yr un mor eglur.

8.2 Cyhoeddiadau dwyieithog

8.2.1 Bydd CMC yn paratoi dogfennau dwyieithog unigol pan fo modd, pan na fydd modd gwneud hyn, cyhoeddir dogfen ieithyddol ar wahân ar yr un pryd, a fydd yn cynnwys manylion ynghylch sut i gael y fersiynau Cymraeg neu Saesneg ar wahân.

8.2.4 Bydd canllawiau ysgrifenedig ynghylch sut i baratoi cyhoeddiadau dwyieithog, wedi'u seilio ar ganllawiau Comisiynydd y Gymraeg, ar gael i staff CMC.

8.3 Gwybodaeth arall

8.3.1 Cyhoeddir unrhyw wybodaeth arall ar gyfer y cyhoedd, megis taflenni corfforaethol sy'n rhoi crynodeb o weithgareddau CMC yng Nghymru, yr adran am Gymru yn adroddiad blynyddol CMC a dogfennau ymgynghori i'w dosbarthu yng Nghymru, yn ddwyieithog.

8.4 Cyhoeddiadau sydd ar gael yn Saesneg yn unig

8.4.1 Cyhoeddir y canlynol yn Saesneg yn unig, ac eithrio pan fo adroddiad o ddiddordeb arbennig i'r cyhoedd yng Nghymru:

- arweiniad a deunydd technegol neu arbenigol arall ar gyfer gweithwyr proffesiynol, heb fod ar gyfer y cyhoedd yn uniongyrchol;
- dogfennau rheoli ac unrhyw ddogfennau eraill nad ydynt ar gyfer y cyhoedd yn uniongyrchol.

8.5 Datganiadau i'r wasg

8.5.1 Ar gyfer gwrandawiadau ymddygiad proffesiynol sy'n cynnwys meddygon o Gymru, bydd datganiadau i'r wasg sy'n cyhoeddi manylion gwrandawiadau a datganiadau ynghylch penderfyniadau a wnaethpwyd gan CMC ac sy'n berthnasol i'r cyhoedd, yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.

8.5.2 Bydd CMC yn ceisio sicrhau bod cynrychiolydd CMC ar gael i'w cyfweid yn Gymraeg pan fo hynny'n briodol.

8.6 Gweithgarwch hysbysebu a chyhoeddusrwydd

8.6.1 Bydd CMC yn cynnal gweithgareddau hysbysebu a chyhoeddusrwydd yn ddwyieithog yng Nghymru, mewn ffordd sy'n trin y ddwy iaith yn gyfartal.

8.6.2 Wrth recriwtio staff pan fo'r gallu i fod yn rhugl yn y Gymraeg yn un o ofynion dymunol y swydd, bydd yr hysbysebion recriwtio a fydd yn ymddangos yn y DU ac yn y wasg yng Nghymru yn ddwyieithog, ond yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg, a byddant o'r un maint, ffurf, eglurder ac amlygrwydd.

9. GWASANAETHAU I'R CYHOEDD YNG NGHYMURU AR RAN CMC

9.1 Tynnir sylw unrhyw un allanol i'r hyn a ddisgwylir ganddynt o ran y Cynllun Iaith Gymraeg a'u rôl wrth weithredu adrannau sy'n berthnasol i'w gwaith. Bydd perfformiad yn erbyn y contract yn cael ei fonitro er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

10. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

10.1 Strategaeth sgiliau ieithyddol

10.1.1 Fel rhan o'i waith cynllunio adnoddau dynol, bydd CMC yn mabwysiadu strategaeth sgiliau ieithyddol o ran ei waith yng Nghymru. Nod y strategaeth hon fydd galluogi CMC i ddarparu ei wasanaeth yn Gymraeg yn effeithiol ac yn effeithlon.

Mae'r mesurau canlynol yn rhan o'r strategaeth honno:

10.2 Staffio

10.2.1 Bydd CMC yn ceisio sicrhau bod cyfran ddigonol o staff dwyieithog yn cael eu cyflogi i sicrhau y darperir ei Gynllun Iaith Gymraeg yn foddhaol. Bydd CMC yn annog ei staff i ddefnyddio'u sgiliau ieithyddol i hyrwyddo gweithrediad y cynllun. Bydd yn:

10.2.2 Nodi meysydd neu swyddi yn CMC lle y mae'r gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol, gan ganfod pa lefel gallu yn y Gymraeg sy'n angenrheidiol a llunio disgrifiadau swydd priodol.

10.2.3 Cywiro unrhyw ddiffygion wrth i gyfleoedd godi trwy gyfrwng recriwtio, hyfforddi neu drosglwyddo gwirfoddol.

10.2.4 Sicrhau bod yr holl adrannau yn CMC, y mae ganddynt gyswllt â'r cyhoedd, yn gallu manteisio ar staff dwyieithog/cyfieithwyr.

10.2.5 Sicrhau bod holl staff/aelodau CMC yn cael cyfeirlyfr mewnol o siaradwyr Cymraeg, er mwyn sicrhau bod y rhai nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg yn gallu cysylltu â nhw cyn gynted ag y bo modd. Bydd y cyfeirlyfr yn cynnwys gwybodaeth ynghylch sut i fanteisio ar siaradwyr Cymraeg, ynghyd â syniad o lefel eu harbenigedd.

10.2.6 Trwy gyfrwng sesiynau sefydlu corfforaethol a'r fewnrwyd, sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'u goblygiadau a goblygiadau eraill o ran gweithredu'r cynllun.

10.2.7 Rhoi crynodeb o'r cynllun i holl staff CMC yn y DU a'i arwyddocâd i bolisi cyffredinol CMC o ran darparu gwasanaeth.

10.2.8 Sicrhau bod hyfforddiant sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth ieithyddol yn cael ei ddarparu i staff CMC y mae ganddynt gyswllt gydag aelodau'r cyhoedd yng Nghymru.

10.2.9 Sicrhau bod pob aelod/staff newydd yn ymwybodol o Gynllun Iaith Gymraeg CMC yn ystod eu cyfnod sefydlu.

10.3 Dysgu Cymraeg

10.3.1 Bydd staff CMC sy'n dymuno dysgu Cymraeg yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i wneud hynny.

10.3.2 Rhoddir blaenoriaeth i staff sy'n gweithio mewn swyddi lle y mae'r angen mwyaf am sgiliau dwyieithog neu lle na cheir cynrychiolaeth ddigonol o ran sgiliau dwyieithog.

10.4 Recriwtio

10.4.1 Bydd Swyddfa Cymru y CMC yn gynghorydd corfforaethol ynghylch yr iaith Gymraeg ym mhob mater, gan gynnwys recriwtio.

10.4.2 Yn ei hysbysebion recriwtio, bydd CMC yn ceisio annog ceisiadau gan y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg a Saesneg yn rhugl.

10.4.3 Wrth recriwtio staff lle y mae bod yn rhugl yn Gymraeg yn un o ofynion dymunol y swydd:

- bydd manylebion swyddi, pecynnau swyddi a ffurflenni cais dwyieithog yn cael eu cynhyrchu;
- gellir gwneud ceisiadau am swydd yn Gymraeg neu yn Saesneg a byddant yn cael eu prosesu o fewn yr un amserlen yn y ddwy iaith;
- gwneir yr holl benodiadau yn unol â pholisïau cyfle cyfartal a deddfwriaeth gyflogaeth;
- cynhelir rhan o'r cyfweiliad trwy gyfrwng y Gymraeg.

10.5 Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun

10.5.1 Hysbysir pob aelod a'r holl staff o Gynllun Iaith Gymraeg CMC a sut y'i gweithredir. Bydd gwybodaeth ar gael i bob aelod o staff newydd yn ystod eu cyfnod sefydlu . Bydd gwybodaeth ar gael yn ystod sesiynau briffio staff hefyd.

10.5.2 Bydd CMC yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Iaith Gymraeg ymhlith aelodau'r cyhoedd, colegau meddygol, meddygon ac eraill sydd â diddordeb yng ngwaith CMC yn y ffyrdd canlynol:

- ar wefan CMC;
- yn ddarparu copi o Gynllun Iaith Gymraeg CMC i bob ymddiriedolaeth, bwrdd iechyd lleol, coleg meddygol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

- darparu taflenni dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru i'w defnyddio mewn cynadleddau, arddangosfeydd a chyfarfodydd.

11. MONITRO'R CYNLLUN AC ADRODD AM BERFFORMIAD YN ERBYN SAFONAU

11.1 Bydd CMC yn paratoi adroddiadau mewnol ar y cynnydd ynghylch gweithredu'r cynllun

11.1.1 Bydd y Cyngor yn cael adroddiad cydymffurfio blynyddol, a fydd yn cyflawni'r nodau canlynol:

- mesur a yw CMC yn cydymffurfio â'r cynllun;
- mesur a reolir y cynllun mewn ffordd briodol;
- dadansoddi ei berfformiad ar sail adrannol a chorfforaethol, er mwyn sicrhau cysondeb;
- asesu ac ystyried themâu allweddol wrth weithredu'r cynllun;
- cydnabod unrhyw wendid sylfaenol a llunio cynllun gweithredu, a fydd yn cynnwys amserlen i ddelio â nhw.

11.1.2 Anfonir copi o'r adroddiad hwn at Gomisiynydd y Gymraeg bob blwyddyn.

11.1.3 Bydd y GMC hefyd yn parhau â'i waith i baratoi ar gyfer cyflwyno Safonau Iaith Gymraeg.

11.2 Mesurau ategol

Bydd CMC yn:

- 1** Sicrhau bod unrhyw bolisiâu, gweithdrefnau a chyhoeddiadau yn gydnaws â'r cynllun.
- 2** Sicrhau y gwneir cyfeiriad priodol at y cynllun mewn llenyddiaeth gorfforaethol megis yr adroddiad blynyddol ac ar y wefan.
- 3** Sicrhau bod gwasanaethau dwyieithog yn cael eu darparu ar sail cydraddoldeb.
- 4** Bydd yn amlygu'r Cynllun Iaith Gymraeg ar y wefan mewn ffordd a fydd yn esbonio'i arwyddocâd i'r staff ac i'r cyhoedd.
- 5** Monitro amserau er mwyn ymateb i ohebiaeth Gymraeg.
- 6** Monitro cyflwyno cyhoeddiadau dwyieithog.

- 7** Monitro ansawdd y gwasanaeth cyfieithu a'r trefniadau mewn cyfarfodydd a chyfweliadau.
- 8** Monitro hunaniaeth gorfforaethol CMC yng Nghymru.
- 9** Monitro amlder cwynion ynghylch y polisi dwyieithog neu agweddau ar ei weithredu a'r ymateb iddynt.
- 10** Cynnwys darpariaethau ar gyfer cwynion ynghylch defnydd o'r iaith Gymraeg ym mholisi a gweithdrefnau cwyno CMC.
- 11** Monitro cyflawniadau yn erbyn yr amserlen yn y cynllun.
- 12** Monitro effeithiolrwydd y trefniadau a wnaethpwyd i ddarparu gwasanaethau CMC yn Gymraeg.
- 13** Adolygu'r cynllun yn barhaus.
- 14** Llunio adroddiad blynyddol sy'n amlinellu perfformiad CMC wrth weithredu safonau cymeradwyedig y cynllun. Yn ogystal, bydd yr adroddiad yn dadansoddi nifer a natur unrhyw gwynion ac awgrymiadau ynghylch gwelliannau a wneir gan y cyhoedd.

TARGEDAU AR GYFER GWEITHREDIAD LLAWN Y CYNLLUN

Oni bai y nodir fel arall isod, bydd y mesurau yn y cynllun yn dod i rym ar ddyddiad cymeradwyo'r cynllun.

Targed	Amserlen
1. Sicrhau fod polisiâu, trefniadau, datganiadau i'r wasg newydd mewn perthynas â'r cyhoedd yng Nghymru yn cael eu cynhyrchu'n	Parhaus
2. Darparu canllaw a hyfforddiant llawn i staff/aelodau'r CMC sy'n gweithredu yng Nghymru ar oblygiadau'r cynllun a sensitifrwydd	Parhaus
3. Cynnal rhestr o gyfieithwyr a phrawf ddarllenwyr Cymraeg.	Yn flynyddol
4. Gwella polisiâu a threfniadau perthnasol i adlewyrchu anghenion Cynllun Iaith Gymraeg diweddar wrth baratoi ar gyfer	Parhaus
5. Sicrhau y cynhwysir cyfeiriad at y cynllun hwn ar intranet y staff.	Wedi ei gwblhau
6. Sicrhau y cyfeirir at y cynllun hwn yn yr adroddiad blynyddol.	Yn flynyddol
7. Sicrhau fod holl staff/aelodau'r CMC sy'n gweithredu yng Nghymru yn derbyn copiau personol o'r cynllun a'r angen i	Parhaus
8. Cynhyrchu tudalen we newydd ar gyfer y CIG sy'n gosod allan beth yw'r cynllun a beth mae'n bwriadu ei gyflawni.	I'w ddiweddarau 2019 yn absenoldeb
9. Monitro gweithrediad Cynllun Iaith Gymraeg y CMC.	Parhaus
10. Cynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Cyngor.	Yn flynyddol
11. Sicrhau fod y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei weithredu'n llawn.	Parhaus